**Eitem ar yr agenda: 7**

**AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU**

**PANEL GWEITHREDOL**

**26 AWST 2004**

**DEDDF Y GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB 2004**

Adroddiad gan y Clerc

**Diben yr Adroddiad**

**1** Briffio'r Panel ar ddarpariaethau'r Ddeddf a'r amserlen ar gyfer ei rhoi ar waith.

**Cefndir**

**2** Rhoddwyd Cysyniad Brenhinol i'r Ddeddf ar 22 Gorffennaf. Gellir gweld y testun ar

www.uk-legislation.hmso.gov.uk/acts/acts2004/20040021.htmIn

**3** Mae'r Ddeddf yn diddymu Deddfau'r Gwasanaethau Tân 1947, 1951 ac 1959, sef y rhai sydd wedi darparu'r fframwaith statudol ar gyfer y gwasanaeth tân ers dros 50 mlynedd. Caiff Cyngor Ymgynghorol y Brigadau Tân Canolog ei ddiddymu hefyd. Prif nodweddion y Ddeddf yw:

3.1 trosglwyddo'r cyfrifoldeb am y gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru i'r Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys y pŵer i'r Cynulliad i gychwyn darpariaethau'r Ddeddf yng Nghymru;
3.2 tra bod yr awdurdodau tân cyfunol presennol yn parhau trwy rinwedd adran 4, bydd gan y Cynulliad y pŵer i uno awdurdodau tân gyda'r posibilrwydd i'r Cynulliad benodi lleiafrif o aelodau i awdurdod tân cyfunol newydd. Ni fuom yn llwyddiannus yn lobïo i gael gwared ar y pŵer i wneud penodiadau;
3.3 cyfres gydlynol o bwerau ar gyfer awdurdodau tân ac achub gan gynnwys dyletswyddau i hybu diogelwch tân, ymladd tanau ac achub pobl o ddamweiniau ar y ffyrdd, yn ogystal ag ymdrin ag argyfyngau eraill a ragnodir gan y Cynulliad, a'r pŵer i ymateb i ddigwyddiadau eraill sy'n ymwneud â niwed posib i unigolion neu'r amgylchedd;
3.4 tra bo dyletswyddau a phwerau ar gyfer awdurdodau tân ac achub i lunio cynlluniau atgyfnerthu a chyflawni swyddogaethau gydag ac ar ran

eraill, ceir hefyd lawer o bwerau cyfarwyddo ac ymyrryd gan y Cynulliad o ran materion o'r fath. Nid yw'r pwerau yma'n weithredol dros y ffin â Lloegr felly ni all y Cynulliad na'r Ysgrifennydd Gwladol orchymyn i awdurdod tân yng Nghymru ac awdurdod tân yn Lloegr i gydweithio;

3.5 mae adran 19 yn rhoi pŵer i awdurdodau tân ac achub i godi tâl am rai o'r gwasanaethau maent yn eu darparu, yn ddibynnol ar reoliadau sydd i'w gwneud gan y Cynulliad;

3.6 mae adran 20 yn gwneud gofyniad ar y Cynulliad i lunio a chyhoeddi Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Tân ac Achub. Rhaid i'r awdurdodau tân ac achub weithredu yn unol â hwnnw. Mae gan y Cynulliad y pwerau i ymyrryd os nad ydynt yn gwneud hynny;

3.7 mae gan y Cynulliad y pŵer i sefydlu corff negodi statudol ar gyfer telerau ac amodau gweithwyr, a bydd ganddo hefyd bwerau o safbwynt y cynllun pensiwn ar gyfer gweithwyr. Ni fuom yn llwyddiannus yn lobïo i geisio cael gwared ar roi pwerau i'r Cynulliad o safbwynt telerau ac amodau, a phensiynau, a chael darpariaeth bendant na ellid penodi un o Weinidogion y Cynulliad fel cadeirydd annibynnol corff negodi;

3.8 darpariaethau amrywiol o safbwynt cyflenwad dŵr, pwerau diffoddwyr tân mewn argyfwng ac ati.

**4** Roedd y Panel Gweithredol yn cytuno y dylid lobïo ar y ddeddfwriaeth wrth iddi fynd trwy'r Senedd. Yn ogystal â'r pwyntiau a nodir uchod, rwy'n tynnu sylw'r Panel at y canlynol:

4.1 Roedd gwelliannau'r Llywodraeth yn ymdrin â'r pwyntiau roeddem wedi eu codi o ran awdurdodau tân ac achub yng Nghymru yn dod o fewn Rhaglen Wella Cymru dan werth gorau; peidio â gwneud y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Cymru yn agored i weithdrefnau Seneddol; a gwelliant bychan i Ddeddf Pontydd Hafren 1992;

4.2 Tra nad yw adran 49, sydd yn ei gwneud yn drosedd i wneud galwad ffug am dân, wedi ei ehangu i gyfeirio at pob galwad ffug, roedd swyddogion yr ODPM yn ein sicrhau bod galwadau ffug eraill dros y ffôn yn dod dan ddarpariaeth debyg mewn deddfwriaeth ar delegyfathrebu;

4.3 Er lobïo'n ddwys, ni wnaethom lwyddo i sicrhau gwelliant i ddarparu ar gyfer i'r lwfansau i aelodau awdurdodau tân fod yn bensiynadwy.

**Cyngor**

**5** Mae'r sylw bellach yn symud i'w gweithrediad. Mae gan y Cynulliad bwerau i gychwyn y Ddeddf ond nid yw hyd yn hyn wedi darparu unrhyw wybodaeth am yr amserlen.

**6** Nid ydym chwaith wedi cael unrhyw wybodaeth gan y Cynulliad am ei gynigion ar gyfer y ddeddfwriaeth eilaidd dan y Ddeddf, na'r amseru. Er enghraifft, cyhoeddodd Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog ei gynigion ar

gyfer y rheoliadau ar godi tâl dan adran 19 rai misoedd yn ôl ond rydym yn dal heb dderbyn unrhyw gynigion gan y Cynulliad.  Mae'r Panel yn dymuno cael y pŵer i godi tâl am droi allan at alwadau o systemau awtomatig pan nad oes yna dân, a dylai rheoliadau'r Cynulliad ymdrin â hyn.

**7** Mae deddfwriaethau eilaidd eraill a fydd yn angenrheidiol yn cynnwys newidiadau i'r gorchmynion cyfuno presennol er mwyn galluogi, yn ffurfiol, newid enwau'r awdurdodau tân i awdurdodau tân ac achub.

**8** Mae'r awdurdod tân eisoes wedi cytuno i newidiadau i'r dirprwyaethau i'r prif swyddog tân sy'n adlewyrchu Deddf 2004.

**Argymhelliad**

**9** Gwahoddir y Panel Gweithredol i nodi darpariaethau Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 a'r wybodaeth arall sydd yn yr adroddiad hwn.